GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

# Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

# Newyddion Rhwydwaith Gofal yn y Gymdogaeth (NCN)

RHIFYN 10: Hydref/Gaeaf 2025

## Croeso i rifyn deg o'n cylchlythyr chwarterol.



**Mae'n bleser gennym ddod â'r newyddion diweddaraf, diweddariadau ac uchafbwyntiau i chi o'r Rhwydweithiau Gofal yn y Gymdogaeth (NCNs) ar draws ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.**

Nod y cylchlythyr hwn yw eich diweddaru ar y gwaith anhygoel sy'n digwydd yn ein cymunedau, gan ddathlu'r syniadau arloesol, y partneriaethau cryf a'r cyflawniadau ysbrydoledig sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl.

Yn y rhifyn hwn, gallwch ddod o hyd i fanylion am ddigwyddiadau sydd ar y gweill, straeon calonogol a datblygiadau newydd cyffrous. Ein nod yw eich helpu i deimlo'n wybodus, yn rhan o'r gwaith ac yn falch o'r cynnydd rydym yn ei wneud gyda'n gilydd.

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau'r rhifyn hwn a gobeithiwn y bydd yn rhoi cipolwg cadarnhaol ac ysbrydoledig i chi ar y gwaith gwych sy'n digwydd ar draws ein cymunedau.

I gael rhagor o wybodaeth am y rhaglen NCN, ewch i [Rhwydweithiau Gofal yn y Gymdogaeth (NCNs) - BwrddIechydPrifysgol Aneurin Bevan (nhs.wales)], neu anfonwch e-bost at: abb.strategicchangeteam@wales.nhs.uk



**Cynnwys**

Tudalen 1
Cyflwyniad

Tudalen 2
NCN Blaenau Gwent

Tudalen 3
NCN Caerffili

Tudalen 4
NCN Sir Fynwy

Tudalen 5
NCN Casnewydd

Tudalen 6
NCN Torfaen

Tudalen 7
Newyddion arall...

### Beth yw Rhwydwaith Gofal yn y Gymdogaeth (NCN)?

Mae Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth (NCNs) yn dwyn ynghyd wasanaethau iechyd a gofal lleol o fewn ardal benodol, ac maent fel arfer yn cefnogi cymunedau o tua 40,000 i 60,000 o bobl.

Mae pob NCN yn uno amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol gan gynnwys Meddygon Teulu, Deintyddion, Optometryddion, Fferyllwyr, Nyrsys Cymunedol, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (AHPs), ac arbenigwyr Gofal Cymdeithasol.

Drwy gydweithio, mae NCNs yn gwella’r ffordd y caiff gofal ei gydlynu, maent yn creu darlun cliriach o anghenion iechyd lleol, yn blaenoriaethu gwelliannau i wasanaethau ac yn creu atebion wedi'u teilwra sy'n gwella iechyd a lles unigolion a chymunedau.

# Blaenau Gwent

## Digwyddiad Gwasanaethau Plant NCN Blaenau Gwent

Yn ddiweddar, cynhaliodd tîm NCN Blaenau Gwent ddigwyddiad ar thema 'Gwasanaethau Plant' yng Nghanolfan Tabor, Brynmawr.

Roedd y sesiwn yn rhan o amser dysgu gwarchodedig meddygfeydd teulu. Roedd hyn yn sicrhau bod cynrychiolaeth yno o bob meddygfa ym Mlaenau Gwent.

Y nod oedd codi ymwybyddiaeth o'r ystod o wasanaethau sydd ar gael i gefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd. Roedd arweinwyr Rhwydwaith Gofal yn y Gymuned Blaenau Gwent yn arbennig o awyddus i dynnu sylw at rôl hanfodol ymwelwyr iechyd yn y dirwedd hon.

Cafodd y mynychwyr gyfle i gysylltu, rhannu gwybodaeth a chryfhau cydweithio ar draws y rhwydwaith.

Atgyfnerthodd y digwyddiad bwysigrwydd gweithio amlasiantaethol a roedd yn gyfle i arddangosodd y gwasanaethau gwych sydd eisoes ar waith i gefnogi teuluoedd ym Mlaenau Gwent. Roedd hefyd yn darparu llwyfan i bractisau ddeall yr adnoddau hyn yn well ac ymgysylltu â nhw, gan sicrhau bod plant a phobl ifanc yn derbyn y gofal gorau posibl.

### Bevan yr Arth yn helpu i hyrwyddo rhaglen chwistrell ffliw trwynol Blaenau Gwent 2025



Mae Bevan yr Arth wedi cael haf prysur iawn yn helpu Tîm NCN BG i hyrwyddo'r rhaglen chwistrell trwynol rhag y ffliw. Gyda chymorth ein hyfforddwyr lles, mynychodd y tîm Ddiwrnod Chwarae Cenedlaethol yn Nhŷ a Pharc Bedwellty, Tredegar. Roedd y digwyddiad yn wych a chroesawyd dros 1000 o bobl.

Cynhaliwyd y digwyddiad gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ac roedd yn cynnwys chwarae blêr; llithro a sleidio; celf a chrefft; Wild Tots; a llawer mwy! Ymunodd ambell i wasanaeth lleol anhygoel â ni hefyd a thrwy'r digwyddiad roedd modd iddynt hyrwyddo eu hunain o fewn y gymuned.

Lluniom bartneriaeth, hefyd, gyda Morgan o Adran Datblygu Chwaraeon Hamdden Aneurin a'i sesiynau wiggly words, ac aethom ar daith o amgylch llyfrgelloedd Blaenau Gwent, gan gynnig gwybodaeth a chyngor ar y rhaglen darparu brechlynnau rhag y ffliw trwynol sydd ar gael ym mhob lleoliad addysg a meithrinfa i blant 2 – 3 oed ym Mlaenau Gwent.

Mae Bevan wedi gwneud llawer o ffrindiau hyfryd yng nghymuned Blaenau Gwent ac rydym yn edrych ymlaen at weld rhai o'r plant y bu i ni eu cwrdd yn ystod yr haf yn ystod y 6 wythnos nesaf wrth i ni ddechrau cyflwyno ein rhaglen chwistrell trwynol rhag y ffliw allan yn y gymuned.

## Amser Waggy Wellbeing Hyfryd i Nyrsys Ardal Brynmawr

"Diolch i bawb a ymunodd â thîm NCN Blaenau Gwent am yr amser lles staff diweddar gyda Nyrsys Ardal Brynmawr. Roedd yn wirioneddol arbennig gweld y tîm i gyd yn cymryd eiliad i oedi, ymlacio a chysylltu.

O bresenoldeb digyffro Rufus y labrador siocled hyfryd sy'n gi therapi i'r gweithgareddau crefft blodau hardd gyda Lisa, ein Cydlynydd Gweithgareddau yn YAB a chysur y cadeiriau ymlacio / tylinwyr, a fenthycwyd gan ein caplan caredig yn BIPAB - gwnaeth yr ymgysylltiad a'r wên ar wynebau'r rheiny a gymerodd ran y gweithgareddau mor werth chweil.

Braint oedd rhoi rhywfaint o gefnogaeth lles yn ôl i un o dimau gwych Blaenau Gwent i ddiolch am y gwaith anhygoel rydych chi'n ei wneud bob dydd. Diolch o galon i bawb a gymerodd ran am eu cefnogaeth a'u cymorth."

Angela Thompson-Roach
Swyddog Gofal yn Seiliedig ar Le



# Caerffili

## Digwyddiad NCN Caerffili Gyfan yn Taflu Goleuni ar Iechyd Menywod

Cynhaliodd Rhwydweithiau Gofal yn y Gymdogaeth Caerffili (NCNs) / Tîm Ardal Caerffili eu Digwyddiad NCN Caerffili Cyfan mawr ddisgwyliedig ar 6ed Tachwedd yn Nhŷ Penallta, gan ddod â dros 100 o fynychwyr o bob cwr o'r sir ynghyd i ganolbwyntio ar thema hanfodol Iechyd Menywod.

Ochr yn ochr â'r cyflwyniadau, cafodd y mynychwyr gyfle i grwydro stondinau rhyngweithiol gan ddarparwyr gwasanaethau lleol, gan gynnwys:

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gwent Llesiant Natur, Gwasanaeth Methiant y Galon / Adsefydlu Cardiaidd, Endometriosis / Sands, Iechyd ac Addysg Rhyw, Gwasanaeth Rheoli Symptomau, Ffisiotherapi Iechyd y Pelfis BIPAB, Cymorth Tai, Cymorth Bwydo ar y Fron Ymwelwyr Iechyd, Zen Den, Rhwydwaith Llesiant Integredig, Canser y Fron, Urddas Mislif a Nyrsio Ysgol.

Roedd modd i holl aelodau'r NCN ar draws y fwrdeistref fynychu'r digwyddiad gan gynnwys; Meddygon Teulu, Arweinwyr Cydweithredol Proffesiynol, Rhwydwaith Llesiant Integredig, gwasanaethau'r Awdurdod Lleol, y trydydd sector a darparwyr gwasanaethau allweddol eraill ledled Caerffili. Roedd yn llwyfan gwerthfawr ar gyfer rhwydweithio, rhannu gwybodaeth, a chryfhau partneriaethau er mwyn gwella canlyniadau iechyd i fenywod yn y gymuned.

## Diwrnod Llesiant Caerffili yn Llwyddiant Ysgubol

Ddydd Iau 9 Tachwedd, ymunodd IWN Caerffili â GAVO gyda'u gilydd er mwyn cynnal Diwrnod Llesiant ar gyfer Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd yn Neuadd Eglwys y Santes Gwladys, Bargoed. Cynhaliwyd y digwyddiad rhwng 2 a 6pm a chroesawyd dros 100 o fynychwyr.

Cafodd yr ymwelwyr gyfle i grwydro stondinau gwasanaethau lleol gan gynnwys Llesiant Natur Caerffili, GDAS, CHAMPS, Cymorth Cyflogaeth Caerffili, PHPs, Dicky Tickers, Platfform, DEWIS, Helpa Fi i Stopio a Home Start Cymru – pob un yn rhannu gwybodaeth werthfawr am iechyd a lles.

Traddodwyd sgyrsiau gan Side by Side, côr elusennol i bobl sydd â chyflyrau hirdymor, a Jolly Brew Crew, grŵp iechyd meddwl dynion, gan dynnu sylw at fanteision canu a sgwrsio er budd lles. Roedd y diwrnod hefyd yn cynnwys tylino dwylo am ddim, celf a chrefft, perfformiadau gan Stargoed, ioga chwerthin, a blasu cacennau blasus gan Extraordinary Bakes.

## Prosiect Rhandiroedd Lleol yn Meithrin Iechyd, Cynaliadwyedd ac Ysbryd Cymunedol

Mae rhandir ffyniannus yng Nghaerffili ar flaen y gad o ran bwyta'n iach, cynaliadwyedd a lles.

Mae cyllid diweddar wedi cefnogi prosiectau creadigol megis pobi gyda llysiau (sydd wedi cael sylw yng nghynulliadau'r GIG) a phecynnau tyfu am ddim i annog tyfu ffrwythau a llysiau gartref.

Mae Ystafell Lles y rhandir – a fu unwaith yn ofod storio – bellach yn cynnal dosbarthiadau am ddim ar gelf a chrefft, coginio, gwnïo ac ymwybyddiaeth o garbon, gan helpu cannoedd i fynd i'r afael ag unigrwydd a thlodi bwyd.

Mae'r rhandir hwn wedi tyfu o fod yn fychan ac yn syml i fod yn hwb bywiog, sy'n dangos sut y gall iechyd, cynaliadwyedd a chymuned ffynnu gyda'i gilydd.

Mae cyllid ychwanegol wedi talu am dwnelau polythen newydd ar gyfer tyfu drwy gydol y flwyddyn, gan sicrhau bod yr hwb bywiog hwn, lle mae cynaliadwyedd, iechyd a chysylltiad dynol yn ffynnu, yn mynd o nerth i nerth.



# Sir Fynwy

## Gwasanaeth Cwympiadau Sir Fynwy

Nid yw cwympiadau yn rhan anochel o heneiddio, a gellir atal llawer ohonynt.

Mae Gwasanaeth Cwympiadau Sir Fynwy yn rhannu awgrymiadau ymarferol i helpu pobl hŷn i aros yn ddiogel ac yn annibynnol y gaeaf hwn:

Cyngor Gwych ar Atal Cwympiadau:

- Gofal y Llygaid: Gall profion llygaid rheolaidd (am ddim i bobl dros 60 oed) a sbectol addas leihau risgiau.
- Aros yn Actif: Mae ymarfer corff ysgafn megis ymarferion mewn cadair, gwaith tŷ, neu fynd am dro bach yn gwella cryfder a chydbwysedd.
- Adolygiadau o Feddyginiaeth: Gwiriwch eich presgripsiynau yn flynyddol er mwyn osgoi sgil-effeithiau sy'n cynyddu'r risg o gwympo.
- Diogelwch yn y Cartref: Cadwch fannau'n daclus, wedi'u goleuo'n dda, ac ystyriwch osod reiliau gafael neu ddefnyddio larymau personol.
- Paratoi ar gyfer Tywydd Oer: Gwisgwch esgidiau gyda gafael da, cliriwch lwybrau rhewllyd, ceisiwch osgoi dail gwlyb, a chadwch yn gynnes dan do (o leiaf 18°C).

Os byddwch chi'n cael cwymp, rhowch wybod i'ch meddyg teulu – efallai y byddwch yn cael eich atgyfeirio at y Gwasanaeth Cwympiadau am gymorth.

## Dathlu Trish Edwards – 60 oed ac yn ifanc o hyd

Ar ddiwedd mis Medi fe godom ein gwydrau i rywun arbennig — Trish Edwards, a ddathlodd ei phen-blwydd yn 60 oed a cychwyn ei hymddeoliad rhannol cwbl haeddiannol ar ôl blynyddoedd o arweinyddiaeth, ymroddiad a chalon anhygoel o fewn Tîm Rheoli Sir Fynwy.



Mae Trish wedi bod yn olau sy'n arwain ein hadran, ac mae pawb yn gyfarwydd â'i doethineb, ei chynhesrwydd, a'i hymrwymiad diysgog i wella bywydau ar draws ein cymunedau.

Boed yn arwain gyda gweledigaeth neu'n cefnogi gyda thosturi, mae Trish wedi gadael marc parhaol ar bob un ohonom.

Er bod Trish yn camu'n ôl o rai cyfrifoldebau, rydym yn hynod falch y bydd hi'n rhan o'r daith o hyd - ond gydag ychydig bach mwy o amser iddi hi ei hun, ac amser am antur neu ddwy gobeithio !

## Cefnogi Cyn-filwyr mewn Ysbytai Cymunedol

Mae Sir Fynwy wedi dangos ymrwymiad cryf i gefnogi cyn-filwyr mewn lleoliadau gofal iechyd, gan weithio gyda'r Gydweithredfa Nyrsio Proffesiynol ac Arweinydd Lluoedd Arfog BIPAB, Maisy Provan, i lansio Rhaglen y Pabi.

Yn dilyn gwaith Cynllunio ar gyfer y Gaeaf yr NCN, cyflwynwyd y rhaglen yn Ward Cas-Gwent (Ysbyty Cymunedol Cas-gwent) a Ward Trefwyny (Dyffryn Mynwy). Mae'r ddau dîm wedi croesawu'r fenter, gan sicrhau bod cyn-filwyr yn derbyn cefnogaeth wedi'i theilwra yn ystod eu harhosiad a thu hwnt.

Daw enghraifft wych o Ward Cas-Gwent, lle daeth staff yn ymwybodol o glaf a oedd yn gyn-filwr ac aethant ati i gydweithio ag SSAFA ar gynllunio rhyddhau diogel ac urddasol. "Rydym eisoes yn gweld pa mor ddefnyddiol y gall y rhaglen hon fod," meddai Kelly Saidani, Dirprwy Reolwr Ward.

Nododd Ysbyty Cas-gwent Ddydd y Cadoediad hefyd trwy ganu caneuon o gyfnod y rhyfel dan arweiniad y caplan. Roedd yn foment dwymgalon o gofio a chysylltu.

Yn y cyfamser, mae Meddygfa Dixton Road yn Nhrefynwy wedi ennill achrediad fel Meddygfa sy'n Gyfeillgar i Gyn-filwyr, dan arweiniad Dr Brian Harries, gan atgyfnerthu ei hymrwymiad i ofal personol i'r rhai sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog.

# Casnewydd

## Ysgrifennydd y Cabinet yn agor Canolfan Iechyd a Lles 19 Hills yn swyddogol



Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn hynod falch o agor Canolfan Iechyd a Lles 19 Hills yng Nghasnewydd ar 13eg Tachwedd, gyda seremoni dan arweiniad Jeremy Miles MS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae'r Ganolfan yn garreg filltir bwysig yn Rhaglen Dyfodol Clinigol y Bwrdd Iechyd, gan bod y ganolfan yn dod â gwasanaethau integredig, sy'n canolbwyntio ar y person, o dan un to er mwyn cefnogi lles corfforol a meddyliol yn agosach at adref. Mae mannau pwrpasol yn cynnig gofal sylfaenol, cymorth iechyd meddwl, gwasanaethau cymunedol a mentrau lles mewn amgylchedd modern a chroesawgar.

Canmolodd Jeremy Miles AS y Ganolfan fel "dyfodol gofal iechyd yng Nghymru – gwasanaethau integredig sydd wedi'u gwreiddio yn y gymuned." Ychwanegodd Nicola Prygodzicz, Prif Weithredwr: "Mae hwn yn fwy na dim ond adeilad; mae'n ganolfan ar gyfer bywydau iachach a mwy cysylltiedig."

Roedd y digwyddiad yn cynnwys cyfraniadau gan bartneriaid lleol, staff a'r gymuned, ac roedd lluniaeth gan Academi Ieuenctid Casnewydd a pherfformiad gan Gôr Ysgol Gynradd Milton.

## Boreau Coffi yng Nghanolfan Iechyd a Lles 19 Hills

Dewch i ymuno â ni yn yr atriwm bob bore Gwener rhwng 10am a 12pm.

Cyfle i sgwrsio â ffrindiau a thrigolion lleol, siarad am weithgareddau iechyd a lles sydd ar y gweill yn eich ardal a dweud wrthym beth hoffech chi ei weld yn eich cymuned leol.



## Lansio Presgripsiynau Natur yng Nghasnewydd

Cynhaliwyd Lansiad Presgripsiwn Natur ar 20fed Tachwedd yng Nghanolfan Gymunedol Ringland. Mynychwyd y digwyddiad gan 30 o bartneriaid eraill yn y gymuned. Mae  Presgripsiynau Natur wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth ag RSPB Cymru, ac mae'n cynnig ffordd hygyrch a rhad ac am ddim i unigolion wella eu hiechyd a'u lles trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau syml, hunan-arweiniol sy'n annog cysylltiadau dyfnach â natur. Mae pob presgripsiwn wedi'i fframio fel calendr, yn manylu ar ffyrdd o gysylltu â natur drwy gydol y flwyddyn, yn ystod bob tymor. Maent yn pwysleisio "eiliadau nid munudau", h.y., manteision treulio amser ystyrlon mewn natur a'r effaith y mae hyn yn ei gael ar lesiant rhywun.

Cyd-gynhyrchwyd y presgripsiwn mewn dau gam. Roedd 26 o bartneriaid ynghlwm â'r gwaith o ddylunio Cam 1 ac roedd 32 o dimau amrywiol o sawl sefydliadau yn rhan o'r broses o sicrhau ansawdd a'r drafft terfynol. Mae effeithiau'r presgripsiynau natur wedi'u profi gan dreialon cyson gyda chyfranogwyr. Yn yr Alban, un o'r lleoedd cyntaf i dreialu'r presgripsiynau, dywedodd 74% o gleifion eu bod wedi elwa ohonynt a dywedodd 91% o weithwyr proffesiynol y byddent yn parhau i'w cynnig.

Gall unrhyw aelod o'n gweithlu lles yma yng Nghasnewydd gynnig y presgripsiynau hyn, gan eu gwneud yn ychwanegiad hyblyg at y gefnogaeth iechyd a lles sy'n bodoli eisoes.

# Torfaen

## Unedig dros Ofal Gwell: Timau Nyrsio yn Cydweithio Ar Draws Torfaen

Ddydd Iau, 2 Hydref 2025, daeth gweithwyr proffesiynol nyrsio o bob rhan o Adrannau Clinigol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (ABUHB) ynghyd ar gyfer y Cyfarfod Cydweithrediaeth Nyrsio Proffesiynol - digwyddiad deinamig, llawn ysbrydoliaeth penodol ar gyfer gwella gofal cleifion ym Mwrdeistref Torfaen.

Roedd y cyfarfod hwn yn garreg filltir bwysig o ran cydweithrediaeth nyrsio sy'n seiliedig ar leoedd, gan ddod â grwpiau nyrsio penodol i'r fwrdeistref ynghyd i feithrin deialog ystyrlon o fewn y proffesiwn a chyda proffesiynau eraill.  Y nod yw rhannu mewnwelediadau, cryfhau partneriaethau, a chyd-greu strategaethau sy'n codi ansawdd gofal a phrofiad cleifion ar draws y rhanbarth.

Beth Wnaeth y Cyfarfod yn un Arbennig:

- Ymgysylltu Trawsadrannol: Daeth nyrsys o wahanol arbenigeddau a lleoliadau Cymunedol ynghyd i drafod heriau a chyfleoedd a rennir.
- Sesiynau Rhyngweithiol: Anogodd gweithdai a thrafodaethau grŵp ddeialog agored, cyfnewid syniadau a datrys problemau ar y cyd.
- Canolbwyntio ar y Claf: Nod craidd pob sgwrs oedd gwella canlyniadau a phrofiadau i drigolion Torfaen.
- Rhwydweithio Proffesiynol: Adeiladodd y mynychwyr gysylltiadau newydd gan danio cydweithrediadau yn y dyfodol ar draws adrannau.
- Cyflwyniadau gan Siaradwyr Gwadd - Yn ystod y sesiynau hyn cafwyd ddiweddariadau gwerthfawr ar wasanaethau cyfredol, a sut roeddent yn cyfrannu at dirwedd ehangach gofal cleifion.

Tynnodd y digwyddiad sylw at bŵer doethineb ar y cyd a phwysigrwydd meithrin perthnasoedd proffesiynol ar draws ffiniau. Drwy gydweithio, mae timau nyrsio mewn gwell sefyllfa i ddarparu gofal tosturiol, cydlynol ac effeithiol i'r cymunedau y maen nhw'n eu gwasanaethu. Gosododd y Cyfarfod Cydweithredol Nyrsio Proffesiynol y llwyfan ar gyfer partneriaethau parhaus a gwelliant parhaus - oherwydd pan fydd nyrsys yn uno, mae cleifion yn ffynnu.

## Digwyddiad Gwasanaethau Plant Llwyddiannus yn Dod â Sefydliadau Ynghyd yng Nghwmbrân

Cynhaliwyd Digwyddiad Gwasanaethau Plant llwyddiannus yn yr Orsaf Bŵer yng Nghwmbrân, gan groesawu 49 o fynychwyr. Roedd y digwyddiad yn cynnwys cyfres o gyflwyniadau diddorol gan Wasanaethau Plant allweddol ledled Torfaen, gan gynnwys:

- Dechrau Gorau mewn Bywyd
- Effaith Gofal
- SPACE Wellbeing
- Hwb Cymorth Cynnar Niwroamrywiaeth (NESH)
- Cynefin
- Seicoleg Gymunedol
- Plentyn Iach Cymru

Croesawyd y cyflwyniadau, gan sbarduno trafodaethau addysgiadol ymhlith y cyfranogwyr.

At hyn, roedd nifer o stondinau'n darparu gwybodaeth a chyfleoedd i rwydweithio â sefydliadau lleol, fel Sparkle, HDRC, Ymwelwyr Iechyd, TOGs, Dechrau'n Deg, Iechyd y Cyhoedd, ISCAN (Cefnogaeth Integredig i Blant ag Anghenion Ychwanegol), a'r system Ymyrraeth Gynnar ac Atal.

Cynigiodd y digwyddiad gyfle gwerthfawr i weithwyr proffesiynol ac aelodau'r gymuned gysylltu, rhannu gwybodaeth ac archwilio'r gwasanaethau sydd ar gael i gefnogi plant a theuluoedd yn Nhorfaen.

## Newyddion arall...

### Prosiect Fferyllfa Leol yn Darparu Arbedion Mawr




Mae H. Shackleton Ltd, fferyllfa gymunedol yng Nglyn Ebwy, wedi mynd i'r afael yn llwyddiannus â'r broblem gynyddol o wastraff meddyginiaeth, ac maent wedi arbed cannoedd o bunnoedd i'r GIG mewn ychydig wythnosau yn unig.

Mae gwastraff meddyginiaeth yn broblem fawr ledled Cymru. Mae'n costio miliynau i'r GIG bob blwyddyn ac yn cael effaith amgylcheddol ddiangen. Yng Ngwent yn unig, mae tua £9.6 miliwn yn cael ei wastraffu bob blwyddyn ar bresgripsiynau nad ydynt yn cael eu defnyddio neu bresgripsiynau nad oes eu hangen. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, arweiniodd Rhys John, Fferyllydd Academi Gofal Sylfaenol a Chymunedol, brosiect Gwella Ansawdd yn Fferyllfa Shackleton, gan gefnogi ymgyrch Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan "Archebwch yr Hyn Sydd Ei Angen Arnoch yn Unig" ac alinio â chanllawiau NICE ar optimeiddio meddyginiaethau.

Canolbwyntiodd y prosiect ar ymyrraeth syml ond effeithiol: gofyn i gleifion sy'n casglu presgripsiynaua  oedden nhw angen pob eitem yn eu bag. Helpodd y gwiriad ychwanegol hwn i atal darparu diangen a lleihau gwastraff yn sylweddol. Cyrhaeddodd cyfanswm yr arbedion £459.50 mewn dim ond 34 diwrnod gwaith.

https://abuhb.nhs.wales/hospitals/pharmacies-chemists/yourmeds/

### Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin mewn Fferyllfeydd

Mae cyfres newydd o Gwestiynau Cyffredin (FAQs) bellach ar gael ar gyfer y Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin (gweler isod).

Mae'r Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin yn fenter gan y GIG sy'n galluogi fferyllfeydd lleol i ddarparu cyngor a thriniaeth am ddim ar gyfer amrywiaeth o broblemau iechyd dydd i ddydd.

O lau pen i darwden y traed, a dolur gwddf i heintiau'r llwybr wrinol (UTIs), gall fferyllwyr hyfforddedig asesu symptomau, cynnig arweiniad cyfrinachol, a rhoi triniaeth lle bo hynny'n briodol.

Bydd y Cwestiynau Cyffredin newydd yn eich helpu i ddeall y gwasanaeth.

I gael rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin, ewch i : Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin - Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

### Dweud eich dweud ar wasanaethau fferyllol lleol

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn gofyn am eich barn ar wasanaethau fferyllol yn eich ardal fel rhan o'i Asesiad o Anghenion Fferyllol (PNA).

Mae'r adolygiad hwn yn ein helpu i ddeall a yw'r gwasanaethau presennol yn diwallu anghenion lleol ac a oes angen gwelliannau.

Mae'r arolwg yn ddienw, ac ni fydd unrhyw wybodaeth a ddarperir gennych yn cael ei gysylltu â chi. Peidiwch â chynnwys unrhyw fanylion a allai eich adnabod chi neu unrhyw un arall. Bydd yr holl ddata personol yn cael ei drin yn unol â'n polisi preifatrwydd.

I gymryd rhan, cwblhewch yr holiadur: Asesiad o Anghenion Fferyllol - Arolwg Cleifion

Dim ond ychydig funudau y mae'n ei gymryd a bydd eich barn yn helpu i siapio gwasanaethau fferyllol yn y dyfodol.



Mae pob rhifyn o'n cylchlythyr chwarterol ar gael ar Wefan BIPAB.
Os hoffech gael mwy o wybodaeth am unrhyw un o'r straeon dan sylw neu os ydych am gael eich ychwanegu at ein rhestr bostio er mwyn derbyn y cylchlythyr hwn, anfonwch e-bost at lisa.orford@wales.nhs.uk.